

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Hydref 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Hydref 2019

PWNC

Eitem :GORCHYMNUN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS BANGOR

PENDERFYNIAD

- 1) Cymeradwyo cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer Dinas Bangor am gyfnod o dair blynedd, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodwyd i'r adroddiad.
 - 2) Diddymu Gorchymyn Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig ar gyfer ardaloedd Bangor a Chaernarfon Cyngor Gwynedd 2004 (y Gorchymyn Presennol) wrth sefydlu'r GDMC i'r graddau ei fod yn berthnasol i Fangor;
 - 3) Awdurdodi Pennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ymgymryd â chyflwyno'r Gorchymyn Arfaethedig a diddymu'r Gorchymyn Cyfredol.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Swyddogaeth Awdurdodau Lleol a neb arall yw creu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol amdani.

Penderfynodd y Cabinet ar 16 Gorffennaf 2019 i gymeradwyo dechrau ar y broses o ystyried a ddylid cyflwyno GDMC mewn ardal benodol o Fangor.

Mae'r penderfyniad yma i gymeradwyo'r GDMC yn dilyn proses ymgynghori gynhwysfawr gyda'r Heddlu a thrigolion Bangor. Nid ar chwarae bach byddai'r Cyngor yn dymuno cyfyngu ar ryddid trigolion Gwynedd, a gellid casglu o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus bod trigolion Bangor yn bryderus am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ddinas. Mae'r ardal wedi ei ehangu i effeithio ar ardal ehangach na'r bwriad gwreiddiol hefyd yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus a thrafodaethau pellach gyda'r Heddlu.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Hydref 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Hydref 2019

PWNC

Eitem :ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

PENDERFYNIAD

- 1) Derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol Terfynol yn Atodiad 1 ar gyfer ei gyflwyno ymlaen i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019.
 - 2) Rhoi'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd ymgymryd ag unrhyw newidiadau golygyddol a gweinyddol terfynol i'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru
 - 3) Rhoi'r hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet Amgylchedd i ymgymryd ag unrhyw newidiadau sydd yn deillio o faterion sydd yn codi gan Gyngor Sir Ynys Môn.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofynnol i'r Cynghorau gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019.

Mae'r adroddiad monitro yn cofnodi casgliadau gwaith monitro gweithredu strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd rhwng Awst 2017 a Mawrth 2019.

Gan fod Cabinet Cyngor Gwynedd yn cyfarfod cyn i'r adroddiad monitro gael ei gyflwyno i drefniadau Craffu a gweithredol Cyngor Sir ynys Môn, rhoddir yr hawl i'r Pennaeth Cynorthwyol i ymateb i unrhyw faterion sydd yn codi er mwyn galluogi cyflwyno'r adroddiad monitro yn brydlon.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Hydref 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Hydref 2019

PWNC

Eitem :CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2019 o'r Gyllideb Refeniw, gan:

- 1) Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, a chan fod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb, fel sydd yn digwydd ym maes gofal Plant.
- 2) Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â'r Pennaeth Adran Plant a Theuluoedd, i fynd at wraidd gorwariant yr Adran a chymryd camau i ddod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth ac o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.
- 3) Caniatáu yr Adran Amgylchedd i neilltuo (£220k) o danwariant yr adran yn dilyn adolygiad barnwrol diweddar o gynllun cyfalaf yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr, o ganlyniad i resymau tu hwnt i reolaeth y Cyngor, gan ei roi mewn cronfa benodol i'r pwrpas.
- 4) Gweithredu'r trosglwyddiadau canlynol ar gyllidebau Corfforaethol,
 - (£240k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - (£995k) ar gynnal a chadw i gronfa cynnal a chadw.
 - tanwariant net o (£1,632k) ar gyllidebau Corfforaethol i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i leddfu'r risg gorwariant adrannau'r Cyngor yn 2019/20.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r adroddiad yn cyflwyno adolygiad diwedd Awst ar gyfer cyllideb refeniw'r Cyngor. Mae'r adolygiad yn dangos darlun cymysg gan adrodd fod rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor. Fodd bynnag amlygir y pwysau sydd ar rai o'r adrannau yn dilyn gwerth £32 Miliwn o arbedion ers 2015 wedi ei gyplysu gyda chynnydd yn y galw am

wasanaethau.

Oherwydd graddfa'r gorwariant a ragwelir yn yr adrannau Plant (£2.9 miliwn) ac Oedolion (£1.6 miliwn) daethpwyd i'r canlyniad bod angen mynd i wraidd eu hanallu i gadw at eu cyllidebau.

Mae'n ddarbodus trosglwyddo'r arian sydd ar gael oherwydd y tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol er mwyn lleddfu'r risg gorwariant ar gyfer adrannau'r Cyngor ar gyfer 2019/20.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Hydref 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Hydref 2019

PWNC

Eitem :RHAGLEN GYFALAF 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2019 o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig gwerth £17.85 miliwn, sef :

Defnydd o £8.304 miliwn o amryw ffynonellau i ariannu llithriadau o 2018/19

Cynnydd yn y defnydd o

£5.936 miliwn o fenthyca

£3.411 miliwn yn y grantiau a chyfraniadau

£82 mil o dderbyniadau cyfalaf

£154 mil o Gronfeydd adnewyddu ac eraill

Lleihad o £37 mil o gyfraniadau refeniw

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r adroddiad yn cyflwyno adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2019) ar gyfer rhaglen gyfalaf y Cyngor fel rhan o drefn adolygu cyllideb 2019/20.

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Mae gan y Cyngor gynlluniau pendant i fuddsoddi oddeutu £39.7 miliwn yn 2019/20, gyda £17.2 miliwn wedi ei ariannu trwy ddenu grantiau penodol. Rhagwelir bydd £7.9 miliwn yn llithro i'r flwyddyn ganlynol heb gollod ariannol i'r Cyngor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Hydref 2019
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Hydref 2019

PWNC

Eitem :CYTUNDEB GYDA SNOWDONIA AEROSPACE LLP I WIREDDU CYNLLUNIAU ISADEILEDD CANOLFAN AWYROFOD ERYRI LLANBEDR

PENDERFYNIAD

- 1) Ar sail yr adroddiad, yr asesiad risg a'r cyngor arbenigol sydd wedi ei dderbyn, awdurdodi gwredu cynllun Isadeiledd Canolfan Awyrofod Eryri, Llanbedr.
- 2) Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, i negodi ac arwyddo cytundeb gyda Snowdonia Aerospace LLP fydd yn gwarchod buddiannau'r Cyngor cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys cyfyngiadau ar gyfer defnydd sifil o'r ganolfan yn unig.
- 3) Bod y cytundeb yn sicrhau y defnydd sifil o'r datblygiad drwy gynnwys cymal fydd yn gwahardd defnydd milwrol o'r adeiladau sydd yn cael eu gwella drwy'r prosiect arian Ewropeaidd

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae pecyn ariannu cyflawn bellach yn ei le ar gyfer cynllun Isadeiledd Canolfan Awyrofod Eryri gan gynnwys £7.5M o arian Ewrop.

Cyngor Gwynedd yw'r corff atebol ar gyfer yr arian Ewrop ond lesdeiliaid / gweithredwyr Canolfan Awyrofod Eryri - Snowdonia Aerospace LLP - fydd yn gyfrifol am y gwaith sydd i'w gyflawni ar safle maes awyr Llanbedr.

Cyn belled ag y bo modd, mae angen sicrhau buddiannau'r Cyngor drwy sefydlu cytundeb cyfreithiol gyda Snowdonia Aerospace LLP sy'n adlewyrchu ac yn ymateb i'r risgiau i'r Cyngor yn deillio o wireddu'r cynllun gan gynnwys cyfyngu'r defnydd o'r ganolfan i ddefnydd sifil yn unig.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
